

## Bocs bwyd

Rydym yn dal i dderbyn bwydydd yn Capel Coch at Fanc Bwyd Caernarfon.

Clywsom lawer dros y misoedd diwethaf am y defnydd cynyddol a wneir o'r Banc Bwyd ar draws y wlad. Mae hwn wedi datblygu yn wasanaeth gwerthfawr ac yn gymorth mawr i deuluoedd ac unigolion sy'n cael trafferth o bryd i'w gilydd i brynu bwyd.

Gallwch roi'r bwydydd yn y bocs casglu sydd yng nghyntedd Capel Coch.

## Cyhoeddiadau

### YR OFALAETH

**Nos Fawrth, Gorffennaf 19:** Cynhelir Henaduriaeth Arfon yn Eglwys y Waun, Waunfawr am 6.30 o'r gloch.

### CEFNYWAUN AC EBENESER

**Dydd Sul, Gorffennaf 17:** Bydd oedfa am 5.00 o'r gloch yng ngofal y Parchg R O Jones, Gaerwen

### CAPEL COCH A NANT PADARN

**Dydd Mawrth, Gorffennaf 12:** Bore Coffi er budd Cronfa Adnoddau'r Capel rhwng 10.45 a 12.00 o'r gloch.

**Nos Wener, Gorffennaf 15:** Criw CIC yn ymweld â Fferm Henty, Caernarfon.

**Dydd Sul, Gorffennaf 17:** Oedfa am

## Y mis nesaf - Deiniolen

### Gorffennaf 10

5.00 p.m. - Mr Robert Morris

### Gorffennaf 17

5.00 p.m. - Y Parchg R O Jones

### Gorffennaf 24

5.00 p.m. - Miss Nerys Jackson

### Gorffennaf 31

5.00 p.m. - Y Parchg Dafydd Hughes

10.00 o'r gloch yng ngofal Mrs Nerys Griffith. Yna gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Dewi Morris.

### REHOBOTH

**Dydd Sul, Gorffennaf 17:** Ni chynhelir oedfa.

### BETHLEHEM

**Dydd Sul, Gorffennaf 17:** Cynhelir oedfa am 2.00 o'r gloch yng ngofal y Parchg William Davies, Y Bala.

### CARMEL

**Dydd Sul, Gorffennaf 10:** Oedfa yng ngofal Miss Nerys Jackson, Caernarfon am 5.00 o'r gloch.

### CYNLLUN EFE

**Dydd Gwener, Gorffennaf 15:** Bydd y Cyfarfod Gweddi yn Cartref, Caethro am 10.30 o'r gloch.



## Y mis nesaf - Llanberis

### Gorffennaf 10

10.00 a.m. - Y Gweinidog  
5.00 p.m. - Oedfa MOLI

### Gorffennaf 17

10.00 a.m. - Mrs Nerys Griffith  
5.00 p.m. - Y Parchg Dewi Morris

### Gorffennaf 24

10.00 a.m. - Mr Gwilym Charles Williams  
Llandudno



# Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las  
Rhif 691: Dydd Sul, 10 Gorffennaf, 2016

## Dim ofn methu

methu, wrth i ni fentro gwneud pethau gwahanol a chyflwyno'r Efengyl mewn ffordd newydd.

Ond tybed, wrth i ni siarad am rannu'r Efengyl mewn ffordd newydd, fod yna berygl i ni fynd i'r gors? Mae ffyrdd newydd yn medru awgrymu dulliau newydd a phatrymau newydd. Does dim o'i le yn hynny fel y cyfryw. Ond a oes angen rhywbeth mwy sylfaenol o lawer na hynny? Yn hytrach na meddwl am ddulliau a thechnegau gwahanol, a fyddai'n rheitiach i ni feddwl am gyflwyno'r Efengyl yn fwy naturiol i bobl eraill? Rywsut, mae angen i ni fedru sôn yn naturiol am Iesu Grist. Mae angen cyflwyno'r newydd da amdano mewn ffordd syml, ddiymdrech rywsut, fel bod yn gweld mai rhywbeth sy'n golygu popeth i ni yw'r Efengyl. Yn hytrach na meddwl am ddulliau effeithiol a gwahanol, mae angen cyflwyno Crist i bobl fel person sy'n gwbl ganolog i'n holl fywyd.

Gallwn dreulio oriau lawer yn dyfeisio a pherffeithio dulliau a thechnegau. Ond os mai dyna'n unig fydd gennym i gyflwyno'r Efengyl – technegau a dulliau – pa obaith sydd gennym? Os llwyddwn, fodd bynnag, i gyflwyno Iesu Grist yn onest, yn naturiol, yn syml ac yn bersonol i bobl eraill, gallwn freuddwydio am lwyddiant i'r Efengyl a ffyniant a bywyd newydd i'r Eglwys. Fentrwn ni wneud hynny, heb ofni methu? Fentrwn ni rannu'r Ffydd yn syml a diffuant?

Un cyfeiriad bach arall at bêl droed, ac mi gewch chi lonydd am sbel hir! Fydd Cymru ddim yn Rownd Derfynol Ewro 2016 yn Ffrainc heno, ond er y siom nid oes dim yn aros ond balchder yn llwyddiannau ein tîm cenedlaethol dros y mis diwethaf. Mae'r ffaith ein bod yn gallu siom am ein siom ar ôl cyrraedd y Rownd Gynderfynol yn dangos pa mor wych y chwaraeodd y Cymry yn y gystadleuaeth. 'Un gêm yn ormod', meddai sawl un nos Fercher, ond o feddwl y gellid dweud yr un peth yn union nos lau am bencampwr y byd, yr Almaen, doedd dim cywilydd o gwbl yn hynny. Llongyfarchiadau mawr i bawb a fu'n gysylltiedig â'r tîm mewn unrhyw ffordd.

Soniodd rheolwr tîm Cymru, Chris Coleman am yr angen i beidio ag ofni breuddwydio. A do, fe wireddwyd blynyddoedd o freuddwydion yn Ffrainc yr haf hwn. Soniodd hefyd am bwysigrwydd peidio ag ofni methu. Ac na, wnaeth ei dîm ddim methu o gwbl, ond llwyddo y tu hwnt i bob disgwyl.

Bydd llawer yn cymhwyso ei eiriau i'r byd gwleidyddol a chenedlaethol, gan ein hannog i freuddwydio am ddyfodol gwell i Gymru ac i weithredu er mwyn sicrhau'r dyfodol hwnnw, heb ofni methu.

A bydd eraill yn cymhwyso'r geiriau i'r Eglwys. Byddant yn ein hannog i freuddwydio am gael gweld yr Efengyl yn llwyddo. Byddant yn galw arnom i weithio dros Grist a'i deyrnas heb ofni

## Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnysaun (P), Deiniolen  
Ebeneser (A), Deiniolen  
Capel Coch (P), Llanberis  
Nant Padarn A), Llanberis  
Rehoboth (P), Nant Peris  
Bethlehem (A), Talybont  
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard  
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd  
Ffôn: 01286 872390  
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:  
gronyn.wordpress.com  
neu gronyn.org

## Balm o Salm



**BEIBL BYW**

'Pwy a esgyn i fynydd yr  
ARGLWYDD a phwy a saif  
yn ei le sanctaidd? Y glân ei  
ddwylo a'r pur o galon, yr un sydd heb  
osod ei feddwl ar dwyll a heb dyngu'n  
gelwyddog' (Salm 24:3-4).

## Heddiw

Croeso cynnes i oedfaon Sul arall. Boed  
bendith Duw ar ein haddoliad.

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00  
o'r gloch gan y Gweinidog. Estynnwn  
groeso i'r oedfa i Gwenno a Rhys a'u  
teuluoedd a'u ffrindiau wrth iddyn nhw  
ddod ag Awel i'w bedyddio.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 5.00 o'r  
gloch gan Mr Robert Morris, Penygroes.  
Croeso iddo unwaith eto a diolch am ei  
wasanaeth.

Gwasanaethir yn Llanllechid am 5.00 o'r  
gloch gan y Parchg Marcus Robinson,  
Bethel. Croeso cynnes iddo a diolch am

ei wasanaeth.

Bydd yr Ysgol Sul yn Nhalybont am  
10.00 o'r gloch, a chynhelir Oedfa Deulu  
am 2.00 o'r gloch. Croeso cynnes i'r  
plant a'u teuluoedd i'r oedfa hon sy'n  
dod â diwedd blwyddyn yr Ysgol Sul i  
ben.

Nid oes oedfa yn Nant Peris heddiw.

## Cofion

Dymunwn yn dda i bawb sydd heb fod  
yn dda eu hiechyd ar hyn o bryd.

## Croeso

Estynnir croeso cynnes iawn heddiw i  
aelodau o eglwysi Chwilog a'r cylch sy'n  
ymuno â ni yn oedfa'r bore yn Capel  
Coch. Mae eglwysi gofalaeth y Parchg  
Aled Davies yn cael gwibdaith flynyddol,  
a Llanberis yw'r gyrchfan eleni. Mae'n  
braf iawn cael eu croesawu atom, a does  
ond gobeithio y bydd y tywydd yn well  
fore Sul nag yw hi bnawn Sadwrn wrth i  
mi sgwennu'r pwt hwn! Mwynhewch yr  
ymweliad â Llanberis a'r pryd bywd ar y  
ffordd adref y pnawn yma.

## Te Mefus

Diolch i bawb a gefnogodd y Te Mefus  
blynyddol yn Festri Bethlehem Talybont  
nos Fawrth ddiwethaf. Gwnaed elw o  
£682 at Gronfa'r Capel. Diolch hefyd i  
bawb a fu'n paratoi ar gyfer y noson ac  
yn gweithio'n galed i sicrhau'r fath  
lwyddiant.

## Bore coffi

Cynhelir y Bore Coffi misol yn festri  
Capel Coch rhwng 10.45 a 12.00 o'r  
gloch, ddydd Mawrth, Gorffennaf 12 er  
budd Cronfa Adnoddau'r Capel.

## CIC

Bydd CIC Llanberis a Llanrug yn mynd i  
Fferm Hendy, caernarfon nos Wener  
nesaf, Gorffennaf 15. (Mi rois y dyddiad  
anghywir y Sul diwethaf!)

Bydd yno farbeciw, a gemau a chyfle i  
bwy bynnag fydd eisiau hynny i weld  
rhywfaint ar y fferm..

Mae Aled ac Eilir Jones, Fferm Hendy,  
yn aelodau yng nghapel Tanycoed,  
Llanrug ac yn gefnogol iawn i waith  
Cynllun Efe ac Andrew ers blynyddoedd.  
Maent wedi ein gwahodd i gynnal  
gweithagredd ar dir y fferm ers tro, ac  
mae Andrew wedi trefnu i fynd yno.

Byddwn yn ddiolchgar iawn i rieni a all  
helpu i gludo'r ieuencid yno. Mae  
Fferm Hendy ar y lôn o Gaernarfon at  
Ganolfan Arddio Frongoch. Wedi pasio  
hen Ysbyty Brynseiont mae angen troi i'r  
dde a chroesi'r rheilffordd (y tro cyntaf  
i'r dde ar ôl Bryneiont).

## Cwpan Efe

Nos Fawrth diwethaf, Gorffennaf 5,  
cynhaliwyd trwnamaint pêl droed Cwpan  
Efe ar gae Ysgol Gynradd Llanrug.

Chwech o dimau ddaeth yno eleni, ac  
roedd hynny'n golygu bod pob tim yn  
chwarae yn erbyn ei gilydd. Roedd y  
rownd derfynol rhwng un o ddau dim  
Capel Noddfa, Caernarfon a thim Capel  
Salem, Caernarfon, gyda Salem yn ennill  
o 1 gôl i 0 wedi amser ychwanegol.

Yn ystod yr egwyl ar ganol y chwarae  
cafwyd neges syml gan Sion Morris o  
Goleg y Bala. Soniodd amdano'i hun yn  
aelod o 'dim pel droed un dyn' ers  
talwm, gan mai un chwaraewr gwerth ei  
halen oedd yn y tim. Soniodd wedyn am  
Iesu Grist, sydd wedi gwneud popeth  
drosom ni trwy ei fywyd a'i farwolaeth  
a'i atgyfodiad. Rydym yn dibynnu yn  
llwyr ar Iesu, meddai.

Diolch i Sion am ei neges ac i Andrew  
am drefnu'r cyfan eleni eto. Diolch i'r  
dyfarnwyr Dafydd Pritchard, Sion Morris  
a John (o Gricieth, nad ydw er cywilydd  
yn cofio ei gyfenw!)

## Cyfarfod Chwarter

Cynhaliwyd Cyfarfod Chwarter Gogledd  
Arfon yng nghapel Carmel, Llanllechid  
nos Fercher diwethaf, Gorffennaf 6 dan  
lywyddiaeth y Parchg Gareth Edwards,  
Cyffordd Llandudno.

Roedd y gwasanaeth dechreuol yng  
ngofal Mrs Helen Williams a Mr Joe  
Hughes, a Mrs Rhian Roberts oedd yr  
organydd.

Cafwyd adroddiad gan y Parchg Ronald  
Williams, Caernarfon o Gyfarfodydd  
Blynyddol Undeb yr Annibynwyr yn  
Llanuwchllyn yr wythnos flaenorol.

Diolch i aelodau Carmel am baratoi  
paned a chacen yn y festri i bawb.

## Ffair Haf

Cynhelir Ffair Haf yn Festri Capel Coch  
er budd Cronfa Adnoddau'r Capel ddydd  
Mercher, Gorffennaf 20.

Dechreuir am 2.00 o'r gloch.

Y pris mynediad fydd £1.00 (a chewch  
baned a bisged fel arfer am y pris  
hwnnw).

Mae angen nwyddau ar gyfer y bydrddau  
gwerthu arferol os gwelwch yn dda, yn  
cynnwys byrddau cacennau, tombola,  
tuniau a phacedi bwyd, bric-a-brac ac ati.

## Pwyllgor Carmel

Cynhelir Pwyllgor swyddogion Carmel  
Llanllechid yn y festri am 7.00 o'r gloch  
nos Lun, Gorffennaf 18.